Yr Wylan yn y ffynnon

Helpu'n gilydd / Dyfalbarhad

Cododd yr wylan ar ei hadain a hedfan dros y dyffryn i gyfeiriad yr hen chwarel. Cododd y gwynt yn dymestl a chwythodd yr wylan tuag at y ffynnon. Ceisiodd arbed ei hun ond syrthiodd i lawr ac i lawr ac i lawr i waelod y ffynnon ddofn. Doedd dim dŵr yn y ffynnon ond roedd hi'n dywyll ac yn oer. Arhosodd yr wylan yno. Doedd dim modd iddi ddod allan o'r ffynnon. A dweud y gwir doedd hi ddim yn trio dod allan. Dyna lle roedd hi'n cwyno wrth ei hunan, "Mi fydda i'n siŵr o farw yn y lle yma. Beth ydw i wedi wneud i haeddu hyn?" Am ddyddiau bu'n gweld bai ar bobl ac anifeiliaid eraill. Arnyn nhw oedd y bai ei bod yng ngwaelod y ffynnon. A'r gwynt creulon yna yn ei chwythu i'r gwaelodion!

"Nid fy mai i ydio fy mod i yng ngwaelod y ffynnon. Pwy oedd y dynion gwirion wnaeth adeiladu'r ffynnon yn y lle cyntaf? Fe ddylai rhywun fod wedi rhoi caead ar ben y ffynnon. Fuaswn i ddim wedi syrthio i'r gwaelod wedyn. Nid fy mai i ydi hyn, nage wir." Felly roedd yr wylan yn cwyno bob dydd.

Dechreuodd weiddi am help, "Help! H...e...e...l...p. Gai i help! Os gwelwch chi'n dda wnewch chi f' helpu i ddod o'r twll yma!"

Edrychodd ambell un i mewn i'r ffynnon. Gwaeddodd un ohonyn nhw, "Mae gen ti adenydd. Rwyt ti'n gallu hedfan. Pam na wnei di geisio helpu dy hun?" "Os byddai'n ceisio hedfan yn y twll yma mi fydda i'n siŵr o anafu fy hun." cwynai'r wylan. "Nid fy mai i ydio fy mod yng ngwaelodion y ffynnon yma. Mae'n rhaid i chi geisio f' helpu."

Gwaeddodd y bobl arni wedyn. "Mae yna ddigon o le i ti hedfan yn y ffynnon. Wnei di ddim anafu dy hun. Dwyt ti ddim yn hen ac yn fregus. Tyrd o'na !" Gwrthododd yr wylan. Rhoddodd ei phen yn ei phlu ac eistedd yn bwdlyd ar waelod y ffynnon.

"Does yna neb yn malio amdana i! Mae pobl mor galed ac

angharedig. Does ganddyn nhw ddim diddordeb mewn aderyn fel fi." Cwynai'r wylan drwy'r amser.
Er ei bod yn cwyno roedd hi'n mwynhau byw yn y ffynnon. Doedd hi ddim yn meddwl am ddianc. Yn y diwedd doedd ganddi ddim awydd o gwbl i adael y ffynnon. Roedd ei hadenydd yn mynd yn fwy llipa o ddydd i ddydd. Yn y diwedd doedd hi ddim yn gallu defnyddio ei hadenydd o gwbl. Roedden nhw'n rhy wan.
A dyna fu ei hanes. Yng ngwaelod y ffynnon dywyll y bu weddill ei hoes. Bob dydd roedd yn gwynfanus ac yn sarrug. Ond doedd hi ddim am helpu ei hun o gwbl.

Weithiau, Arglwydd, mi rydw i'n hapus efo pethau fel mae nhw.
A'i dyma'r ffordd, mewn difri. Wnei di f' helpu.
Amen.

- Ydyn ni'n barod i weld bai ar bobl eraill bob amser?
- Ydych chi'n teimlo'n hapus efo pethau fel mae'n nhw?
- Beth fedrwch chi wneud i newid y sefyllfa?